Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Carmel
**Neuadd Bentref**
**Carmel**
**Caernarfon**
**LL54 7AA**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.


**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 13/09/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Carmel sydd yn cwrdd yn neuadd bentref Carmel, yn awdurdod lleol Gwynedd.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 12 o blant rhwng dwy a phedair blwydd oed. Mae ar agor rhwng 9.00 ac 11.30 y bore am bum sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Cynhelir clwb cinio yn y lleoliad am bum bore'r wythnos o 11.30 hyd at 12.45. Yn ystod yr arolygiad, roedd 8 plentyn tair oed ar y gofrestr ac roedd 6 ohonynt yn cael eu hariannu. Mae'r lleoliad hefyd yn rhan o ddarpariaeth Dechrau'n Deg.

Cymraeg yw prif iaith y cartref i ran fwyaf o blant y lleoliad. Ychydig iawn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a daw bron pob un ohonynt o gefndir gwyn Prydeinig.

Mae pedwar ymarferydd, yn cynnwys yr arweinydd, yn gweithio yn y lleoliad ynghyd ag un gwirfoddolwr. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Rhagfyr 2011.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mai 2018 a gan Estyn ym mis Hydref 2011.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd er mwyn darparu amgylchedd dysgu diddorol ac ysgogol, tu fewn a thu allan, sy'n sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da ar draws yr holl feysydd dysgu
- gan y gweithgareddau dyddiol ffocws da iawn ar ddysgu trwy chwarae sy'n ychwanegu'n gadarnhaol tuag at frwdfrydedd y plant a'i hawydd cynhenid i ddysgu
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg y plant yn effeithiol iawn
- ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus
- ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau creadigol y plant
- ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da iawn i'r plant ddatblygu gwerthoedd, fel tegwch a gonestrwydd, er mwyn eu helpu i fod yn ddinasyddion gofalgar sy'n parchu syniadau a safbwyntiau ei gilydd
- ganddo drefniadau effeithiol er mwyn bodloni anghenion plant sydd angen cymorth ychwanegol

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gweledigaeth a brwdfrydedd yr arweinydd profiadol yn sicrhau bod yr addysgu a'r gofal yn datblygu plant hapus ac annibynnol, sy'n hyderus wrth gyfathrebu a gweithio yn y Gymraeg
- yr holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn er mwyn darparu profiadau ysgogol o safon uchel i'r plant
- y pwyllgor rheoli yn cydweithio'n agos â'r ymarferwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall eu rolau'n llawn
- yr arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i bennu blaenoriaethau synhwyrol er mwyn gwella'r ddarpariaeth a safonau
- y cydweithio agos rhwng y lleoliad a'r ymarferwyr yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn effeithiol ac yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu'n gyflym yn unol â'u cyngor a'u harweiniad
- cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn llwyddiannus
- ymarferwyr yn gwneud defnydd da o hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn gwella eu hymarfer

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod asesiadau’r ymarferwyr yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio pwrpasol, sy’n targedu’r camau nesaf yn nysgu’r plant yn effeithiol

A2 Cynllunio gweithgareddau yn fwy effeithiol er mwyn datblygu medrau’r plant yn systematig ar hyd y flwyddyn

A3 Gwella’r ddarpariaeth a’r cyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd Cylch Meithrin Carmel yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r arweinwydd a'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau ysgogol yn drwyadl sy'n adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn fwriadus er mwyn bodloni anghenion y mwyafrif o'r plant yn llwyddiannus Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd er mwyn darparu gweithgareddau diddorol ar draws yr holl feysydd dysgu. Maent yn ennyn diddordeb y plant yn bwrpasol. Mae hyn yn creu plant brwdfrydig sy'n awyddus iawn i ymroi i weithgareddau tu fewn ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, maent yn cymell y plant i ddatrys problemau trwy ddarganfod ffyrdd ymarferol o lenwi twba dŵr cyn penderfynu beth i'w wneud â'r dŵr ar ôl gorffen.

Mae'r holl ymarferwyr yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trafod cynnydd plant unigol. Maent yn defnyddio'r cyfarfodydd hyn, yn ogystal â dyheadau a syniadau'r plant, fel sail gadarn er mwyn trefnu themâu a gweithgareddau yn synhwyrol. O ganlyniad, mae gan y gweithgareddau dyddiol ffocws da iawn ar ddysgu trwy chwarae ac maent yn ychwanegu'n gadarnhaol tuag at frwdfrydedd y plant a'u hawydd cynhenid i ddysgu. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd cadarn i blant gyfri hosanau Sali Sws, creu patrymau lliwgar wrth ddarlunio Huw Bob Lliw ac amlinellu cysgodion eu ffrindiau a chymharu eu maint a'u siâp.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg y plant yn effeithiol iawn. Mae'r ymarferwyr yn fodelau ardderchog o'r iaith. Maent yn annog y plant yn gyson i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag y bo modd trwy eu herio a'u holi'n fedrus yn yr ardaloedd dysgu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel sy'n ysgogi'r plant i ymateb yn ddeallus. Maent yn cynorthwyo'r ychydig o blant hynny sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus, ac yn sicrhau bod medrau llafar y plant sy'n siarad Cymraeg adref hefyd yn datblygu'n gadarn. Mae hyn yn cael effaith arbennig ar safon iaith lafar y plant ac mae llawer yn defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn hyderus yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau meddwl y plant yn ystod tasgau ffocws yn briodol. Gwelir enghreifftiau ymarferol o hyn wrth i blant drafod nodweddion y defaid, gwartheg a'r alpacoad sydd yn y cae cyfagos a chyfri'r adar gwyllt sydd yn ymwelwyr cyson i'r ardal allanol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn cynnig digon o arweiniad i'r ymarferwyr ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn systematig ar hyd y flwyddyn. O ganlyniad, nid oes cyfleoedd digon pwrpasol i sicrhau bod y plant yn defnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd yn rheolaidd yn ystod y gweithgareddau parhaus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn addas ac yn cynnig cyfleoedd achlysurol i blant ddefnyddio camerâu, tiliau, teganau, llechi electronig ac i ddewis cerddoriaeth ar beiriant cryno ddisg.  Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o feddalwedd addysgol gan ddefnyddio'r cyfrifiadur a'r bwrdd gwyn rhyngweithiol. Fodd bynnag, nid yw'r plant yn cael cyfleoedd pwrpasol yn ddigon aml i ddefnyddio'r offer er mwyn datblygu medrau TGCh cryf.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru'n llwyddiannus.  Mae hwn yn gryfder yn y lleoliad ac mae'r plant yn datblygu ymwybyddiaeth dda iawn o'u Cymreictod a'u hetifeddiaeth.  Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys canu caneuon a hwiangerddi Cymraeg wrth chwarae â'r parasiwt, dathlu Dydd Gŵyl Dewi trwy goginio cawl a phobi cacennau cri ac ymuno yn nathliadau gŵyl Mudiad Meithrin yng nghwmni Dewin a Doti.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i'r plant ddringo a llithro ar gyfarpar anturus yn annibynnol, gyrru beiciau'n fywiog a rhedeg yn igam-ogam yn yr ardal allanol.  Mae hyn yn datblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant.  Mae ymweliadau i iard lo a garej lleol yn ogystal â ffermydd yr ardal yn atgyfnerthu'r cwricwlwm yn effeithiol.  Mae ymwelwyr fel swyddog diogelwch y ffyrdd, deintydd lleol a hyfforddwr yoga yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau lles y plant.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau creadigol y plant sy'n cynnwys gweithgareddau cyfansoddi yn yr ardal offerynnau taro tu allan. Maent yn darparu cyfleoedd da i'r plant drin toes, creu gwisgoedd eu harch arwyr ac ategu swigod, lliw bwyd a thywynnau i byllau glaw er mwyn arsylwi'r adwaith.

**Addysgu:  Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth gadarn am ddatblygiad plant a gofynion y cyfnod sylfaen.  Maent yn ymwybodol iawn o'r angen i ddarparu amgylchedd dysgu diddorol ac ysgogol, tu fewn a thu allan, er mwyn sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd cadarn ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae gan yr holl ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn cydweithio'n dda er mwyn herio'r plant yn rheolaidd yn ystod y tasgau ffocws a gweithgareddau parhaus. Maent yn cymryd gwir ddiddordeb ym mywydau'r plant ac yn eu hadnabod yn dda. Un o gryfderau'r ymarferwyr yw eu dealltwriaeth o bryd i ymyrryd ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu hysgogi a'u cymell i lwyddo.  O ganlyniad, mae'r plant yn dyfalbarhau wrth baru hosanau Sali Sws neu wrth ddefnyddio rhubanau lliwgar i gyfateb â gwisg Huw Bob Lliw.  Yn ogystal, caiff y plant gyfleoedd addas i chwarae'n annibynnol yn y gegin fwd, y gornel gartref ac ar y ffrâm dringo.  Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac mae gweithdrefnau sefydlog yn esgor ar gyfranogiad positif gan bron pob un o'r plant ym mhob gweithgaredd.

Mae gan yr ymarferwyr drefniadau effeithiol ar gyfer asesu plant o'u man cychwyn. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol trwy ddefnydd priodol o broffil y cyfnod sylfaen.  Mae'r ymarferwyr yn trafod gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn synhwyrol.  Fodd bynnag, er bod ymarferwyr yn

ymwybodol o gyrhaeddiad unigolion, nid ydynt yn defnyddio'r asesiadau dyddiol yn ddigon effeithiol eto er mwyn herio'r plant ymhellach trwy dargedu'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant trwy ddeialog anffurfiol ar gychwyn neu ar ddiwedd y sesiynau. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae 'Llyfr Trysor' yn cael ei gyflwyno i'r rhieni sy'n nodi llwyddiannau eu plant yn ystod eu cyfnod yno.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu ychwanegol y plant yn drwyadl pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau angenrheidiol. O ganlyniad, maent yn bodloni anghenion plant sydd angen cymorth ychwanegol yn llwyddiannus, yn ôl y galw, ac yn defnyddio iaith arwyddo yn effeithiol pan fo angen.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod gofal dyddiol ac iechyd y plant yn dda ac maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddiet synhwyrol. Yn ogystal, maent yn trafod pwysigrwydd cadw'n heini yn rheolaidd ac yn sicrhau bod gweithgareddau corfforol yn yr ardal allanol ar feiciau a theganau gwthio a thynnu yn cael effaith bositif ar iechyd y plant.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol er mwyn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae sesiynau boreol ar y carped yn fywiog ac yn rhoi cyfleoedd da iawn i'r plant gyfarch ei gilydd ac i fwynhau clywed am anturiaethau eu cyfoedion gyda'u teuluoedd. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r sesiynau hyn yn bwrpasol er mwyn datblygu gwerthoedd fel tegwch, a gonestrwydd, sy'n helpu'r plant i ddysgu i fod yn ddinasyddion gofalgar sy'n parchu syniadau a safbwyntiau ei gilydd.

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod o strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad da, sy'n cael eu defnyddio'n synhwyrol a sensitif gan yr holl ymarferwyr. Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i'r rhain. Maent yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion ac yn hyderus wrth ofyn am gymorth a chefnogaeth i gwblhau gweithgareddau pan fo angen. Mae'r defnydd o 'helpwr y dydd' yn rhoi cyfrifoldebau gwerthfawr i unigolion ynglŷn â chofnodi'r tywydd a dewis caneuon i'w chwarae yn ystod y gweithgareddau. Fodd bynnag, er bod ymarferwyr yn pwysleisio'r angen i'r plant aros eu tro a bod yn gwrtais wrth fwyta byrbrydau, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i weini ei gilydd a'u cyfoedion nac i baratoi'r bwyd yn ddyddiol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i'r plant ailgylchu papur a bwyd. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i'r plant blannu llysiau a blodau mewn potiau a sachau yn yr ardal allanol, sy'n dechrau datblygu dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn briodol.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal diwyd o'r plant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn groesawgar ac mae'r ymarferwyr yn ymdrechu'n llwyddiannus i sicrhau bod y plant a'r rhieni yn teimlo'n rhan o gymuned gynhwysol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais dyddiol ar gydnabod a dathlu amrywiaeth. Maent yn hyrwyddo ethos cadarnhaol ac yn arwain drwy esiampl wrth annog plant i ddangos goddefgarwch a pharch tuag at eraill ac adnoddau'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cefnogi plant yn gyson mewn modd cadarnhaol a gofalus.

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod bron pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i ddysgu'n gynhyrchiol tu fewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r ymarferwyr yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn bwrpasol. Maent yn cynllunio cyfleoedd diddorol i'r plant ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd trwy flasu bwydydd traddodiadol, creu draig ac ysgrifennu eu henwau gan ddefnyddio arwyddion Tsieineaidd. Mae gan y lleoliad gyflenwad da iawn o ddoliau a jig-sos o wahanol ddiwylliannau sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth y plant o amrywiaethau mewn cymdeithas. Mae'r ymarferwyr hefyd yn defnyddio cyfleusterau lleol yn effeithiol drwy fynd â'r plant ar deithiau cerdded i gasglu dail, i arsylwi ar y tai ac i wrando ar synau'r ceffylau, yr ŵyn a'r ieir.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n llwyddiannus mewn gweithgareddau parhaus, gweithgareddau ffocws ac i gyfoethogi'r dysgu er mwyn bodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau'n hygyrch sy'n golygu bod y plant yn eu defnyddio'n annibynnol ac yn eu rhoi heibio heb ormod o gyfarwyddyd gan yr oedolion. Mae hyn yn atgyfnerthu dealltwriaeth y plant yn llwyddiannus o'r angen i gymryd eu tro i rannu ac i gydweithio.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn cael ei gynnal yn dda ac mae'n ddiogel. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd cadarn o'r ardal tu allan er mwyn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n tanio chwilfrydedd naturiol y plant. Mae gan y plant fynediad di-dor i'r ardal hon sy'n cynnwys ardaloedd plannu a thyfu, cyfarpar i ddringo ac ardaloedd heriol i ddatrys problemau gyda dŵr a thywod. Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o adnoddau symbylus yn grefftus er mwyn bodloni anghenion y plant a datblygu eu medrau'n llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal fewnol, gan gynnwys y neuadd, yn ddoeth ar gyfer darparu gweithgareddau bywiog fel dawnsio a chreu symudiadau i gerddoriaeth.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd profiadol a chydwybodol wedi sefydlu gweithdrefnau cyson, sy'n hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n effeithiol. Mae'n sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn cydweithio'n dda iawn er mwyn darparu profiadau ysgogol o safon uchel i'r plant. Mae ei gweledigaeth a'i brwdfrydedd yn sicrhau bod yr addysgu a'r gofal yn arwain at ddatblygu dysgwyr hapus ac annibynnol, sy'n hyderus wrth gyfathrebu a gweithio yn y Gymraeg.

Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel o ran ei hun, yr ymarferwyr a'r plant. Mae gweledigaeth gytûn y lleoliad yn arwain at ethos gofalgar a chroesawus, lle mae

plant ac ymarferwyr yn awyddus i ddysgu. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cymell y plant i wella mewn ffyrdd ysgogol a chefnogol trwy addysgu effeithiol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd y mae ymarferwyr yn datblygu medrau llafar y plant trwy sgwrsio a chanu'n gyson gydag unigolion a grwpiau penodol.

Mae'r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol a chyfredol am y lleoliad i wella'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn effeithiol er mwyn adnabod mannau cychwyn y plant yn gywir.

Mae'r arweinyddiaeth, sy'n cynnwys pwyllgor rheoli cefnogol, yn canolbwyntio'n briodol ar sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn effeithiol. Mae'r pwyllgor rheoli yn cydweithio'n agos â'r ymarferwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall eu rolau'n llawn. Mae hyn yn digwydd trwy gyfres o werthusiadau a thrafodaethau cyson er mwyn adolygu perfformiad a chraffu ar ddisgrifiadau swydd sy'n amlinellu eu dyletswyddau addysgu yn glir.

Mae'r pwyllgor rheoli yn derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn rheolaidd gan yr arweinydd. Mae'r aelodau'n canolbwyntio'n bwrpasol ar wella'r holl ddarpariaeth, yn enwedig yr ardal allanol, er mwyn gwella safonau lles y plant. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod incwm a chyllid y lleoliad ac yn monitro'r gwariant a'r defnydd o grantiau yn fanwl a chydwybodol. O ganlyniad, mae'r pwyllgor rheoli'n cefnogi'r lleoliad yn llwyddiannus i gynnal a gwella eu harferion a datblygu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y lleoliad weithdrefnau hunanarfarnu cadarn sy'n golygu bod yr arweinydd a'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda. O ganlyniad, maent yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella ac maent yn cynllunio'n briodol er mwyn gwneud hynny. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd yr addysgu er mwyn barnu'r effaith ar safonau'r plant. Mae'r pwyllgor rheoli hefyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses ac yn arsylwi sesiynau addysgu er mwyn cael dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r arweinwyr i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r cydweithio rhwng y lleoliad a'r ymarferwyr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn effeithiol ac mae'r ymarferwyr yn gweithredu'n gyflym yn unol â'u cyngor a'u harweiniad. Effaith y gefnogaeth a'r parodrwydd i wella yw bod y lleoliad wedi gwneud gwelliannau cyson dros amser. Mae hyn yn cynnwys rhoi proffil y cyfnod sylfaen ar waith, gwella'r ddarpariaeth yn yr ardal tu allan a chodi safonau llythrennedd y plant.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn briodol i bennu blaenoriaethau synhwyrol yn y cynllun gwella. Mae'r cynllun yn cynnwys blaenoriaethau pwysig sy'n deillio o'r gweithgarwch hunanarfarnu. Mae'n cynnwys ffocws priodol ar feini prawf llwyddiant mesuradwy ynghyd â chamau gweithredu clir. O ganlyniad, mae'r arweinwyr mewn sefyllfa gryf i fesur cynnydd y cynllun gwella yn ofalus. Mae'r ymarferwyr yn monitro cynnydd yn erbyn targedau gwelliant yn rheolaidd ac maent yn agored i syniadau newydd er mwyn newid eu ffyrdd o weithio ac wrth ymateb i'r anghenion a nodwyd yn y cynllun gwella.

Mae’r arweinydd yn monitro gwariant yn bwrpasol yn unol â’r targedau ar gyfer gwella, fel prynu offer TGCh newydd a gweithredu cynlluniau iaith a mathemateg defnyddiol yn ystod tasgau ffocws.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod dda o bartneriaethau strategol effeithiol. Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n bwrpasol gyda’r partneriaid hyn i wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant trwy sicrhau profiadau ysgogol iddynt.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn derbyn cyngor ac arweiniad gwerthfawr gan ddwy athrawes gyswllt. Maent yn ymweld â’r lleoliad yn rheolaidd ac mae eu mewnbwn wedi symud sawl agwedd o ddarpariaeth y lleoliad ymlaen, gan gynnwys asesiadau dyddiol a’r cynllunio.

Mae perthynas y lleoliad â rhieni yn gadarnhaol ac mae’r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i’w cynnwys ym mywyd y lleoliad. Mae’r cyfleoedd anffurfiol a chyfeillgar dyddiol yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth am ddatblygiad eu plant. Mae’r lleoliad yn eu hysbysu’n rheolaidd, drwy gylchlythyron, hysbysfwrdd gweithredol a chyfryngau cymdeithasol, am bob agwedd ar waith y lleoliad er mwyn eu hannog i gymryd rhan weithredol yn eu haddysg. Mae rhieni’n gwerthfawrogi'r cyfraniad mae’r lleoliad yn ei wneud at ddatblygiad lles a safonau eu plant.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu’r plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau i godi arian, fel noson harddwch a lles, a chefnogaeth fuddiol wrth gynnig am nawdd a grantiau perthnasol.

Mae’r lleoliad yn gweithio’n bwrpasol gyda Mudiad Meithrin er mwyn cefnogi dogfennaeth angenrheidiol a hyfforddiant yr ymarferwyr. Yn ychwanegol, mae ymarferwyr yn cydweithio’n agos ag ystod eang o bartneriaid eraill sydd yn gwneud cyfraniadau pwysig at wella’r ddarpariaeth. Mae’r rhain yn cynnwys asiantaethau sy’n darparu hyfforddiant fel cymorth cyntaf, hylendid bwyd ac amddiffyn plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r defnydd o staffio ac adnoddau yn effeithlon er mwyn cefnogi a chyflwyno’r cwricwlwm yn briodol. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gwneud defnydd da o hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn gwella eu hymarfer. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn gwneud defnydd medrus o’r ardal allanol ar gyfer datblygu medrau corfforol y plant a chynllunio heriau ymestynnol i ddatblygu eu medrau rhifedd, fel mesur blodau i weld os ydyn nhw wedi tyfu.

Mae’r arweinwyr yn anelu’n gyson tuag at wella pob agwedd ar waith y lleoliad trwy reoli adnoddau’n bwrpasol a defnyddio arbenigedd ymarferwyr yn ofalus. Mae gan blant fynediad at adnoddau o ansawdd uchel sy'n ysgogol ac yn heriol ac mae ymarferwyr yn rheoli’r amgylchedd dysgu yn dda.

Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o'r gyllideb ac maent yn cynllunio’n effeithiol i flaenoriaethu gwariant yn briodol. Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella’n bwrpasol, fel dechrau ategu at gyfarpar TGCh. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Maent yn sicrhau bod gan y

lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys gyda hyfforddiant cyflawn sy'n barod i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn datblygu diwylliant o gydweithio cydwybodol rhwng ymarferwyr a phartneriaid eraill fel Mudiad Meithrin, Dechrau'n Deg a'r athrawesau cyswllt yn yr ysgol leol. Mae'r cydweithio agos hwn yn arwain at weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn sydd â ffocws da ar sicrhau profiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu cadarnhaol.

O ystyried yr addysgu effeithiol a'r arweinyddiaeth glir a phendant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |